

LLAIS PEDR

Mae wedi bod yn bleser croesawu pawb yn ôl yn dilyn gwyliau hanner tymor. Gobeithio bod disgyblion, staff a theuluoedd wedi mwynhau'r cyfle i orffwys, ailwefru a threulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd cyn yr wythnosau prysur sydd o'n blaenau.

Mae'r wythnos gyntaf yn ôl yn sicr wedi bod yn un prysur ar draws ein cymuned ysgol, gyda phrofiadau dysgu, gweithgareddau a digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal. Yn benodol, hoffem longyfarch ein disgyblion Blwyddyn ll, sydd wedi mynd i'r afael â'u harholiadau TGAU allanol mewn Mathemateg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg ac Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg gydag aeddfedrwydd, ymrwymiad a gwydnwch.

Wrth i ni symud ymhellach i mewn i'r tymor, hoffwn atgoffa'n holl ddisgyblion, rhieni a gofalwyr o'n disgwyliadau uchel o ran presenoldeb, prydlondeb, ymddygiad, ymdrech a pharch at ein gilydd. Drwy weithio gyda'n gilydd a byw yn unol â gwerthoedd ein hysgol bob dydd, gallwn sicrhau bod gan bob dysgwr y cyfle i ffynnu a chyflawni ei botensial llawn.

Yn olaf, fel bob amser, cofiwch bod ein drysau ar agor. Os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod, neu os gallwn gynnig cymorth mewn unrhyw ffordd, peidiwch ag oedi mewn cysylltu â ni. Mae partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant a lles ein pobl ifanc, ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a gawn gan ein teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Hoffwn ddymuno hanner tymor llwyddiannus a gwerth chweil i bawb.

It has been a pleasure to welcome everyone back following the half-term break. I hope that pupils, staff and families enjoyed the opportunity to rest, recharge and spend quality time together before the busy weeks ahead.

The first week back has certainly been a busy one across our school community, with a wide range of learning experiences, activities and events taking place. In particular, we would like to congratulate our Year ll pupils, who have approached their external GCSE examinations in Mathematics, English Language and Literature and Welsh Language and Literature with maturity, commitment and resilience.

As we move further into the term, I would like to remind all pupils, parents and carers of our high expectations in relation to attendance, punctuality, behaviour, effort and respect for one another. By working together and living our school values each day, we can ensure that every learner has the opportunity to thrive and achieve their full potential.

Finally, as always, please remember that our doors are open. If there is anything that you would like to discuss, or if we can provide support in any way, please do not hesitate to get in touch. Strong partnerships between home and school are essential to the success and wellbeing of our young people, and we greatly value the support of our families and wider community.

Thank you for your continued support.

I would like to wish everyone a successful and rewarding half term ahead.

Cofion cynnes,

Mrs Carys Morgan

SUL Y COFIO
REMEMBRANCE SUNDAY

Y penwythnos hwn, ymunodd cymuned ein hysgol â phobl ledled y wlad i nodi Sul y Cofio, gan dreulio amser i gofio ac anrhydeddu'r rhai sydd wedi gwasanaethu, aberthu a cholli eu bywydau mewn gwrthdaro.

Yn Ysgol Bro Pedr, mae'r cyfnod coffáu yn gyfle pwysig i fyfyrio ar werthoedd gwasanaeth, dewrder, parch ac anhunanoldeb. Mae hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i'n pobl ifanc ddysgu am yr aberthau a wnaed gan genedlaethau blaenorol, ac am bwysigrwydd gweithio tuag at ddyfodol heddychlon.

Roeddem yn arbennig o falch o weld nifer o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yng Ngwasanaeth Coffa Llanbed gydag aeddfedrwydd, urddas a pharch, gan brofi eu hunain yn lysgenhadon rhagorol dros ein hysgol a'n cymuned ehangach.

Diolch i'r holl ddisgyblion, teuluoedd a staff a gefnogodd y digwyddiadau coffáu. Roedd eu cyfraniad yn sicrhau bod yr achlysur pwysig hwn yn cael ei nodi mewn ffordd ystyrlon a pharchus.

"Ni a'u cofiwn"





This weekend, our school community joined people across the country in marking Remembrance Sunday, taking time to remember and honour those who have served, sacrificed and lost their lives in conflict.

At Ysgol Bro Pedr, remembrance is an important opportunity to reflect on the values of service, courage, respect and selflessness. It also provides a valuable chance for our young people to learn about the sacrifices made by previous generations and the importance of working towards a peaceful future.

We were particularly proud to see a number of our pupils representing our school at the Lampeter Remembrance Service. They conducted themselves with great maturity, dignity and respect throughout the event and were excellent ambassadors for both our school and our wider community.

Thank you to all pupils, families and staff who supported the commemorations. Their participation helped ensure that this important occasion was marked in a meaningful and respectful way.


Lest we forget.

Ein Gwerthoedd
Our Values

Wrth i ni ddechrau hanner tymor newydd, hoffem fanteisio ar y cyfle i atgoffa holl aelodau ein cymuned ysgol o bwysigrwydd gwerthoedd ein hysgol. Mae'r gwerthoedd hyn yn sail i bopeth a wnawn yn Ysgol Bro Pedr, ac maent yn helpu i greu amgylchedd dysgu lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn cael eu cefnogi.

Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd rydym yn dysgu, yn gweithio ac yn rhyngweithio â'n gilydd bob dydd. Boed yn yr ystafell ddosbarth, yn ystod gweithgareddau allgyrsiol neu o fewn y gymuned ehangach, rydym yn annog pob disgybl i ddangos caredigrwydd, parch, cyfrifoldeb ac uchelgais ym mhopeth a wnânt.

Drwy weithio gyda'n gilydd a byw yn unol â'r gwerthoedd hyn bob dydd, gallwn sicrhau bod Ysgol Bro Pedr yn parhau i fod yn gymuned ysgol y gallwn i gyd fod yn falch ohoni. Diolch i'n disgyblion, staff, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr am y cyfraniad cadarnhaol rydych yn ei wneud i'n hysgol, ac am eich cefnogaeth barhaus wrth i ni ymdrechu i gyflawni'r gorau posibl ar gyfer pob dysgwr.



As we begin a new half term, we would like to take the opportunity to remind all members of our school community of the importance of our school values. These values underpin everything we do at Ysgol Bro Pedr and help to create a learning environment where everyone feels safe, respected and supported.

Our values guide the way we learn, work and interact with one another each day. Whether in the classroom, during extracurricular activities or within the wider community, we encourage all pupils to demonstrate kindness, respect, responsibility and ambition in all that they do.

By working together and living these values every day, we can ensure that Ysgol Bro Pedr continues to be a school community of which we can all be proud. Thank you to our pupils, staff, parents, carers and governors for the positive contribution you make to our school and for your ongoing support as we strive to achieve the very best for every learner.

YSGOL BRO PEDR YN CYFLAWNI GWOBR ECO YSGOLION PLATINWM



Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Ysgol Bro Pedr wedi ennill Gwobr Platinwm Eco-Ysgolion yn dilyn ein hasesiad ar y 4ydd o Dachwedd.

Yn ystod yr asesiad, cyflwynodd aelodau'r Fforwm Eco gyflwyniad yn dangos y gwaith sydd wedi'i gwblhau ers ymweliad diwethaf yr asesydd. Amlygwyd ystod eang o brosiectau amgylcheddol a gynhaliwyd ar draws yr ysgol.

Ein prif ffocws eleni oedd ailgylchu. Canmolodd yr aseswyr yn arbennig y fideo ymwybyddiaeth ailgylchu a grëwyd gan y Fforwm Eco i addysgu disgyblion a staff am sut i ailgylchu'n gywir. Mae'r fideo wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ac annog arferion ailgylchu cadarnhaol ledled yr ysgol.

Rydym yn hynod falch o'r cyflawniad hwn ac yn dymuno diolch i'r holl ddisgyblion, staff ac aelodau'r gymuned ehangach am eu cefnogaeth. Diolch arbennig i Mrs Nerys Beaumont Douch am arwain y fenter a chydlynu'r cyfan. Mae ennill y Wobr Platinwm yn gydnabyddiaeth wych o waith caled ac ymrwymiad pawb i ofalu am yr amgylchedd.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran! Sganiwch y cod qr isod i weld gwaith arbennig y disgyblion ar ailgylchu!

SCAN ME!





YSGOL BRO PEDR ACHIEVES PLATINUM ECO AWARD



We are very pleased to announce that Ysgol Bro Pedr has been awarded the Eco-Schools Platinum Award following our assessment on 4th November.

During the assessment, members of the Eco Forum delivered a presentation showcasing the work completed since the assessor's last visit. The presentation highlighted a range of environmental projects that have taken place across the school.

Our main focus this year has been recycling. The assessors particularly praised the recycling awareness video created by the Eco Forum, which was designed to educate pupils and staff on how to recycle correctly. The video has helped raise awareness and encourage positive recycling habits throughout the school.

We are incredibly proud of this achievement and would like to thank all pupils, staff and members of the wider school community for their support. A special mention to Mrs Nerys Beaumont Douch for co-ordinating and leading on this award. Achieving the Platinum Award is a fantastic recognition of everyone's hard work and commitment to caring for the environment. Congratulations to everyone involved!

SCAN ME!





BLWYDDYN 11
YEAR 11

Rydym yn hynod falch o'n disgyblion Blwyddyn 11 am y ffordd y maent wedi ymateb i'w harholiadau allanol hyd yma. Yn syth ar ôl gwyliau'r hanner tymor, aeth y disgyblion i mewn i gyfnod dwys o arholiadau allanol, ac maent wedi ymdrin â'r her hon gydag aeddfedrwydd, ymrwymiad a gwydnwch rhagorol. Mae eu hagwedd bositif a'u paratoad gofalus wedi bod yn galonogol iawn, ac maent wedi cynrychioli eu hunain a'r ysgol yn arbennig o dda drwy gydol wythnos gyntaf yr arholiadau.

Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y ddau arholiad allanol sy'n weddill. Rydym yn hyderus y bydd eu gwaith caled a'u paratoad gofalus yn eu rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i lwyddo.

Diolch hefyd i rieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus. Trwy gydweithio, gallwn sicrhau bod ein pobl ifanc yn cyflawni eu potensial llawn ac yn barod ar gyfer eu camau nesaf.

well done!


Keep GOING

GOOD LUCK

We are extremely proud of our Year 11 pupils for the way they have responded to their external examinations so far. Immediately following the half-term break, the pupils entered an intensive period of external examinations, and they have approached this challenge with outstanding maturity, commitment, and resilience. Their positive attitude and careful preparation have been very encouraging, and they have represented both themselves and the school exceptionally well throughout the first week of the examinations.

We wish them every success in their two remaining external examinations. We are confident that their hard work and careful preparation will place them in the best possible position to succeed. Thank you also to parents and carers for your continued support. By working together, we can ensure that our young people achieve their full potential and are prepared for their next steps.

ARHOLIADAU BLWYDDYN 11
YEAR 11 EXAMINATIONS



ARHOLIADAU ALLANOL YSGRIFENEDIG TACHWEDD SY'N WEDDILL:

REMAINING NOVEMBER WRITTEN EXTERNAL EXAMINATIONS:

CYMRAEG IAITH GYNTAF:

WELSH FIRST LANGUAGE:

10.11.26 - UNED 4B (SET 1 A 2 YN UNIG)

10.11.26 - UNED 4B (SETS 1 A 2 ONLY)

MATHEMATEG :

MATHEMATICS:

11.11.2026 - UNED 3 GYDA CHYFRIFIANNELL

11.11.2026 - UNIT 3 WITH CALCULATOR







YMARFERION EIN CYNHYRCHIAD YSGOL
OUR SCHOOL PRODUCTION PRACTICES

Wrth i'r cyffro gynyddu ar gyfer ein cynhyrchiad o School of Rock, mae ein disgyblion talentog wedi bod yn gweithio'n galed tu ôl i'r llenni. Mae ymarferion yn cael eu cynnal yn ystod amserau egwyl a chinio, ar ôl ysgol ac ar ddydd Sul. Mae ymroddiad ac ymrwymiad ein disgyblion yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau llwyddiant y cynhyrchiad. Hoffwn hefyd ddiolch yn ddiffuant i rieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus wrth helpu disgyblion i fynychu'r sesiynau pwysig hyn.

Er mwyn lleihau unrhyw effaith ar ddysgu ac amser gwersi, bydd nifer o ymarferion yn parhau i gael eu cynnal ar ddyddiau Sul ac ar ddiwrnod HMS. Mae mynychu ymarferion yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynhyrchiad yn llwyddiant ac er mwyn gallu cynllunio'r ymarferion yn effeithiol. Os na all disgybl fynychu unrhyw ymarfer, mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei gyfathrebu ymlaen llaw i Miss Meleri Morgan, ynghyd â'r rheswm dros yr absenoldeb. Bydd hyn yn ei helpu i gynllunio'r ymarferion yn briodol a sicrhau bod pob aelod o'r cast yn cael y gefnogaeth angenrheidiol.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Edrychwn ymlaen at rannu sioe arbennig iawn gyda'n cymuned yn yr wythnosau nesaf.

YMARFERION DYDD SUL, 10-3:

SUNDAY PRACTICES, 10-3:

08/11/2026

22/11/2026

29/11/2026

06/12/2026

DIWRNOD HMS, 8:40-3:15:

INSET DAY, 8:40-3:15:

16/11/2026



As the excitement continues to build for our production of School of Rock, our talented pupils have been working hard behind the scenes. Rehearsals are taking place during break and lunch times, after school and on Sundays. The dedication and commitment shown by our pupils are key to ensuring the success of this production. I would also like to express our sincere thanks to parents and carers for your ongoing support in helping pupils attend these important sessions.

To minimise any impact on learning and lesson time, many rehearsals will continue to be held on Sundays and during our INSET day. Regular attendance at rehearsals is essential to ensure the success of the production and to allow for effective rehearsal planning.

If a pupil is unable to attend a rehearsal, it is very important that this is communicated in advance with Miss Meleri Morgan, along with the reason for the absence. This will assist in planning the rehearsals appropriately and ensuring that every member of the cast receives the necessary support.

Thank you once again for your continued support and cooperation. We look forward to sharing a very special production with our community in the coming weeks.

CEFNOGWCH EICH PLENTYN
SUPPORT YOUR CHILD

Rydym yn annog holl rieni a gofalwyr Blwyddyn 12 a 13 i fynychu'r Nosweithiau Rhieni sydd ar ddod. Mae'r cyfnod hwn yn bwysig iawn wrth i ddisgyblion weithio tuag at gyflawni eu graddau targed a chynllunio eu camau nesaf ar ôl yr ysgol.

Trwy weithio mewn partneriaeth agos rhwng yr ysgol a'r cartref, gallwn roi'r gefnogaeth a'r arweiniad gorau posibl i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Os yw eu huchelgais yn cynnwys mynd i'r brifysgol, dilyn prentisiaeth, mynychu coleg, cymryd blwyddyn allan neu symud ymlaen i gyflogaeth, rydym yma i'w cefnogi bob cam o'r ffordd.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu a thrafod cynnydd a dyfodol eich plentyn gyda chi.

NOSON RHEINI BLWYDDYN 12:

YEAR 12 PARENTS EVENING:

01/12/2026

NOSON RHEINI BLWYDDYN 13:

YEAR 13 PARENTS EVENING:

10/11/2026



We would like to encourage all Year 12 and 13 parents and carers to attend the forthcoming Parents' Evenings. This is a particularly important stage as students work towards achieving their target grades and begin planning their next steps beyond school.

By working together in close partnership, home and school can provide the support, guidance and challenge needed to help every student reach their full potential. Whether their chosen pathway is university, an apprenticeship, college, a gap year or employment, we are committed to supporting them every step of the way.

We look forward to welcoming you and discussing your child's progress and future aspirations.

Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu i:
We're looking forward to welcoming you to:

NOSON RIENI
BLWYDDYN 13
YEAR 13
PARENTS EVENING

Cefnogwch eich plentyn
Support your child

Dydd Mawrth
Tuesday

Tachwedd 10
November 10

4:00 - 6:00

Dewch yn llu
i'n Neuadd

Please come to
our Hall

Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu i:
We're looking forward to welcoming you to:

NOSON RIENI
BLWYDDYN 12
YEAR 12
PARENTS EVENING

Cefnogwch eich plentyn
Support your child

Dydd Mawrth
Tuesday

Rhagfyr 1af
December 1st

4:00 - 6:00

Dewch yn llu
i'n Neuadd

Please come to
our Hall

DIWEDDARIAD TAI BACH
TOILET FACILITIES UPDATE

Yn dilyn adborth a gasglwyd drwy weithgareddau llais ein disgyblion a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid eraill, rydym wedi penderfynu cau toiledau'r bechgyn yn eu lleoliad presennol.

Ar ôl ymweliadau gan uwch swyddogion yr Awdurdod Lleol, rydym yn ddiolchgar ein bod wedi derbyn bloc toiledau dros dro, a fydd ar gael i'n bechgyn ei ddefnyddio o ddydd Llun ymlaen. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at gyfleusterau addas tra bod gwelliannau tymor hir yn cael eu datblygu.

Bydd y cyfleusterau dros dro yn parhau yn eu lle tra byddwn yn cwblhau cynlluniau i ailddatblygu ein darpariaeth toiledau. Mae hyn yn dilyn adborth gan ddisgyblion. Dywedodd nifer ohonynt y byddai'n well ganddynt beidio â defnyddio'r toiledau presennol a bod angen gwelliannau i wneud y cyfleusterau'n addas i bwrpas.

Hoffem ddiolch i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr, staff a'n hawdurdod lleol am eu hadborth a'u cefnogaeth wrth i ni weithio gyda'n gilydd i wella'r amgylchedd dysgu a'r profiad cyffredinol i bob aelod o gymuned ein hysgol.

Following feedback gathered through pupil voice activities and discussions with other stakeholders, we have taken the decision to close the boys' toilets in their current location.

After visits from senior Local Authority officers, we are grateful to have received a temporary toilet block, which will be available for our boys to use from Monday. This provision has been put in place to ensure that all pupils have access to suitable facilities while longer-term improvements are progressed.

The temporary facilities will remain in place while we finalise plans to redevelop our toilet provision. This follows feedback from pupils, many of whom told us that they would prefer not to use the existing toilets and that improvements were needed to make the facilities fit for purpose.

We would like to thank pupils, parents, carers, staff, governors and our local authority for their feedback and support as we work together to improve the learning environment and overall experience for all members of our school community.

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Hoffem ddiolch yn ddiffuant i Mrs Enfys Powell am ei hymroddiad, ei harweinyddiaeth a'i chyfraniad gwerthfawr fel Pennaeth Mathemateg dros y blynyddoedd. Rydym yn hynod ffodus y bydd Mrs Powell yn parhau gyda ni am weddill y flwyddyn academaidd, gan gynnig ei chefnogaeth, ei gwybodaeth a'i harbenigedd i'r tîm.

Hyd at 31 Awst 2027, bydd cyfrifoldebau Arweinwyr Mathemateg dros dro yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

Mrs Mared Powell - Blynyddoedd 7 ac 8

Ms Mel Hands - Blynyddoedd 9 a 10

Mrs Rhian Morris - Blynyddoedd 11 i 13

Rydym yn edrych ymlaen at weld eu dylanwad cadarnhaol wrth arwain a datblygu Mathemateg a Rhifedd ar draws yr ysgol, gan gefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.

Dymunwn bob llwyddiant i'r dair wrth iddynt ymgymryd â'r rolau pwysig hyn.

We would like to express our sincere thanks to Mrs Enfys Powell for her dedication, leadership and valuable contribution as Head of Mathematics over many years. We are extremely fortunate that Mrs Powell will remain with us for the rest of the academic year, continuing to provide her support, knowledge and expertise to the team.

Until 31 August 2027, the responsibilities of the interim Mathematics Leaders will be divided as follows:

Mrs Mared Powell – Years 7 and 8

Ms Mel Hands – Years 9 and 10

Mrs Rhian Morris – Years 11 to 13

We look forward to seeing their positive impact as they lead and develop Mathematics and Numeracy across the school, supporting our learners to achieve their full potential.

We wish all three every success as they undertake these important roles.







CROESO

Rydym yn falch iawn o groesawu Mr Mark McKenzie Jones i'n tîm fel Cynorthwyydd Addysgu Lefel 2 ar gampws ein disgyblion oed uwchradd. Edrychwn ymlaen at y cyfraniad gwerthfawr y bydd yn ei wneud wrth gefnogi ein dysgwyr a'n staff, a dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddo yn ei rôl newydd.

We are delighted to welcome Mr Mark McKenzie Jones to our team as a Level 2 Teaching Assistant based on the campus of our secondary aged pupils. We look forward to the valuable contribution he will make in supporting our learners and staff, and wish him every success and happiness in his new role.





Mae'n bleser gennym groesawu Charlotte i'n tîm fel Cynorthwyydd Arlwyo ym Mwyty'r Bont, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu prydau a gwasanaeth o safon uchel i'n dysgwyr a'n staff bob dydd.
Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi a dymunwn pob hapusrwydd a llwyddiant iddi yn ei rôl newydd.

We are pleased to welcome Charlotte to our team as a Catering Assistant at Bwyty'r Bont, where she will support the provision of high-quality meals and service to our learners and staff on a daily basis.
We look forward to working with her and wish her every happiness and success in her new role.

POB LWC A CHROESO
GOOD LUCK AND WELCOME

Hoffem ddymuno pob hapusrwydd a llwyddiant i Mrs Luned Hughes wrth iddi ddechrau ei chyfnod mamolaeth. Ar ran holl gymuned Ysgol Bro Pedr, estynnwn ein dymuniadau gorau i Mrs Luned Hughes a'i theulu yn ystod y cyfnod arbennig a chyffrous hwn. Edrychwn ymlaen at glywed y newyddion da yn yr wythnosau i ddod.

Rydym hefyd yn falch o rannu y bydd Ms Emma Chapman a Mr Ifan Jones yn ymgymryd â'r gwaith yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Hughes. Mae Ms Emma Chapman a Mr Ifan Jones eisoes yn wynebau cyfarwydd yn ein hysgol trwy eu gwaith cyflenwi, ac rydym wrth ein bodd yn eu croesawu fel aelodau parhaol o gymuned yr ysgol. Rydym yn hyderus y byddant yn cynnig cefnogaeth wych i'n disgyblion a'n staff, ac edrychwn ymlaen at weithio'n agosach gyda nhw dros y misoedd nesaf.

Rydym yn gwybod bydd ein cymuned yn ymuno â ni i ddymuno'r gorau i Mrs Hughes, ac i estyn croeso cynnes Ysgol Bro Pedr i Ms Chapman a Mr Jones.

We would like to wish Mrs Luned Hughes every happiness and success as she begins her maternity leave. On behalf of the entire Ysgol Bro Pedr community, we extend our very best wishes to Mrs Luned Hughes and her family at this special and exciting time. We look forward to hearing the good news in the weeks ahead.

We are also pleased to share that Ms Emma Chapman and Mr Ifan Jones will be covering Mrs Hughes' maternity leave. Both Ms Emma Chapman and Mr Ifan Jones are already familiar faces within our school through their supply work, and we are delighted to welcome them as daily members of our school community. We are confident that they will be a great support to our pupils and staff, and we look forward to working more closely with them over the coming months.

We know that our community will join us in wishing Mrs Hughes all the very best and in extending a warm Ysgol Bro Pedr welcome to Ms Chapman and Mr Jones.







CYSTADLEUAETH UKMT
UKMT COMPETITION

UK Maths Trust

Llongyfarchiadau i holl fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 a gymerodd ran yn ddiweddar yn Her Fathemategol Uwch Ymddiriedolaeth Fathemateg y Deyrnas Unedig (UKMT).

Mae'r her hon yn gystadleuaeth genedlaethol o fri sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu rhesymu mathemategol, eu sgiliau datrys problemau a'u gallu i feddwl yn rhesymegol. Mae'r cwestiynau'n gofyn i fyfyrwyr gymhwyso eu gwybodaeth fathemategol mewn cyd-destunau newydd a heriol, gan wobrwyo dyfeisgarwch, dyfalbarhad a meddwl dadansoddol.

Rydym yn hynod falch o'r holl fyfyrwyr a gynrychiolodd Ysgol Bro Pedr. Mae eu parodrwydd i herio eu hunain ac i ymgysylltu â mathemateg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn dangos ymrwymiad, gwydnwch ac uchelgais rhagorol.

Mae cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol fel Her Fathemategol Uwch UKMT yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau meddwl lefel uchel a magu profiad o fynd i'r afael â phroblemau cymhleth yn annibynnol. Mae hefyd yn baratoad rhagorol ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau a gyrfaoedd yn y dyfodol sy'n gofyn am sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf.

Da iawn i bob myfyriwr a gymerodd ran.

Congratulations to all of our Year 12 and Year 13 students who recently took part in the UK Mathematics Trust (UKMT) Senior Mathematical Challenge.

The challenge is a prestigious national competition that encourages students to develop their mathematical reasoning, problem-solving skills and ability to think logically. The questions require students to apply their mathematical knowledge in unfamiliar and challenging contexts, rewarding ingenuity, perseverance and analytical thinking.

We are incredibly proud of all the students who represented Ysgol Bro Pedr. Their willingness to challenge themselves and engage with mathematics beyond the classroom demonstrates excellent commitment, resilience and ambition.

Taking part in national competitions such as the UKMT Senior Mathematical Challenge provides valuable opportunities for students to develop higher-order thinking skills and gain experience of tackling complex problems independently. It is also excellent preparation for further study, apprenticeships and future careers that require strong analytical and problem-solving abilities.

Well done to every student who participated.

BLWYDDYN 13
YEAR 13



BLWYDDYN 12
YEAR 12

- Trystan Bryn Evans
- Woody Lewis
- Catherine Marsden
- Kayla Shilling
- Alma Spooner
- Edward Weedon
- Mali Yim Jones
- Erol Yoztyurk

CWRDD Â'R CYFLOGWYR - BARCUD
MEET THE EMPLOYER - BARCUD



Croesawodd disgyblion Blwyddyn 10 Keith Henson o Barcud i'r ysgol heddiw fel rhan o gyfres Cwrdd â'r Cyflogwr. Yn ystod ei gyflwyniad, rhannodd Mr Henson wybodaeth werthfawr am ystod eang o gyfleoedd gyrfa o fewn Barcud, gan amlygu bod y sefydliad yn cynnig llawer mwy na rolau sy'n gysylltiedig ag adeiladu tai yn unig. Cafodd y disgyblion hefyd wybodaeth am y cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael i bobl ifanc ar ddiwedd Blwyddyn 11. Pwysleisiodd Mr Henson ymrwymiad Barcud i gefnogi cymunedau lleol drwy gyflogi gweithlu lleol, gweithio gyda busnesau'r ardal, a darparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ledled canolbarth a gorllewin Cymru.

barcud

Year 10 pupils welcomed Keith Henson from Barcud to school today as part of the Meet the Employer series.

During his presentation, Mr Henson provided valuable insight into the wide range of career opportunities available within Barcud, highlighting that the organisation offers far more than housing construction and maintenance roles alone. Pupils also learned about apprenticeship opportunities that may be available to them at the end of Year 11.

Mr Henson emphasised Barcud's commitment to supporting local communities through employing a local workforce, working closely with local businesses, and delivering services that make a positive difference to people's lives across mid and west Wales.

GWM CNOI
CHEWING GUM



Yn Ysgol Bro Pedr, rydym yn gweithio'n galed i gynnal amgylchedd glân, diogel a chroesawgar i bawb. Un mater sy'n parhau i achosi problemau diangen o amgylch yr ysgol yw'r defnydd o gwm cnoi.

Hoffem atgoffa disgyblion nad yw cnoi gwm yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol. Er y gall ymddangos yn ddiniwed, mae gwm sy'n cael ei daflu'n amhriodol yn creu nifer o broblemau. Mae gwm sy'n cael ei lynu o dan ddesgiau, cadeiriau a byrddau yn annymunol i eraill ac yn cymryd amser ac arian sylweddol i'w lanhau. Gall hefyd niweidio eiddo'r ysgol a chreu amgylchedd dysgu anniben.

Mae ein staff glanhau yn gwneud gwaith rhagorol yn cadw'r ysgol yn lân ac yn daclus, ac mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gefnogi eu hymdrechion. Trwy beidio â dod â gwm cnoi i'r ysgol, gall disgyblion helpu i gadw ein hystafelloedd dosbarth, coridorau ac ardaloedd allanol yn lân ac yn groesawgar i bawb.

Gellir gofyn i unrhyw ddisgybl a geir yn cnoi gwm ar safle'r ysgol i'w waredu ar unwaith, a gall wynebu sancsiynau pellach os na chaiff rheolau'r ysgol eu dilyn.

Diolch i'r mwyafrif helaeth o'n disgyblion sy'n parhau i barchu amgylchedd yr ysgol ac sy'n helpu i gynnal y safonau uchel rydym mor falch ohonynt yn Ysgol Bro Pedr.

At Ysgol Bro Pedr, we work hard to maintain a clean, safe and welcoming environment for everyone. One issue that continues to cause unnecessary problems around the school is the use of chewing gum.

Students are reminded that chewing gum is not permitted in school. While it may seem harmless, discarded gum can create a number of issues. Gum stuck under desks, chairs and tables is unpleasant for others and takes a significant amount of time and money to remove. It can also damage school property and create an untidy learning environment.

Our site and cleaning staff already do an excellent job keeping the school looking its best, and we all have a responsibility to support their efforts. By choosing not to bring chewing gum into school, students can help keep classrooms, corridors and outdoor areas clean and enjoyable for everyone.

Any student found chewing gum on site may be asked to dispose of it immediately and could face further sanctions if the school rules are not followed.

Thank you to the vast majority of students who continue to respect our school environment and help us maintain the high standards we are proud of at Ysgol Bro Pedr.

DIOLCH BENNETT

THANK YOU

Diolch i haelioni'r Phil Bennett Foundation, mae'r ysgol wedi derbyn grant sydd wedi ein galluogi i brynu adnoddau chwaraeon newydd. Mae'r offer newydd eisoes yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, ac mae'r disgyblion wrth eu bodd yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau a mwynhau bod yn egnïol trwy chwaraeon.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Phil Bennett Foundation am eu cefnogaeth hael a'u hymrwymiad i helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'r grant hwn wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiadau ein disgyblion.











Thanks to the generosity of the Phil Bennett Foundation, the school has received a grant which has enabled us to purchase new sports equipment for our primary department. The new resources are already being used regularly, and pupils are thoroughly enjoying the opportunity to develop their skills and stay active through sport.

We are extremely grateful to the Phil Bennett Foundation for their generous support and commitment to helping young people participate in sport. This grant has made a real difference to the experiences available to our pupils.

CYNRYCHIOLI CYMRU
REPRESENTING WALES







Llongyfarchiadau enfawr i Llew Gregson, Blwyddyn 10, ar ei lwyddiant arbennig yn cynrychioli tîm bechgyn dan 15 Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA yn Azerbaijan!
Cafodd Llew dwrnamaint gwych, gan chwarae mewn 10 gêm, sgorio 3 gôl a llwyddo i sgorio 2 gic gosb. Cafodd Llew hefyd yr anrhydedd o fod yn gapten ar dîm Cymru mewn sawl gêm, sy'n gyflawniad arbennig ynddo'i hun!
Enillodd Cymru 6 gêm, cael un gêm gyfartal, colli dwy ar giciau o'r smotyn a cholli un gêm arall. Gorffennodd Cymru yn 22ain allan o 189 o dimau – camp anhygoel!
Am brofiad bythgofiadwy i Llew ac am gyflawniad arbennig! Rydym ni fel ysgol yn hynod falch ohono ac yn edrych ymlaen at weld ei lwyddiant yn parhau yn y dyfodol. Da iawn ti, Llew!

A huge congratulations to Llew Gregson, Year 10, on his outstanding achievement representing Wales Boys U15s at the FIFA U15 World Cup tournament in Azerbaijan!
Llew enjoyed a fantastic tournament, playing 10 games, scoring 3 goals and successfully converting 2 penalties. He was also given the honour of captaining Wales in several matches, a fantastic achievement and a real recognition of his leadership qualities!
Wales recorded 6 wins, 1 draw, 2 defeats on penalties and just 1 other defeat, finishing an incredible 22nd out of 189 teams – what an achievement!
What an unforgettable experience for Llew and a fantastic accomplishment! We are all incredibly proud of him here at Ysgol Bro Pedr and look forward to following his continued success. Well done, Llew!

CYNRYCHIOLI CEREDIGION
REPRESENTING CEREDIGION



Da iawn i fechgyn dan 13 a dan 14 Ysgol Bro Pedr a fu'n cynrychioli Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Ceredigion dros y penwythnos. Cafwyd perfformiadau arbennig o dda gan bawb, gyda Gwyn a Leo yn sgorio i'r tîm dan 12 mewn gemau cystadleuol dros ben.

Roedd gêm y tîm dan 13 yn un hynod gyffrous a chlos, gyda'r bechgyn yn colli o drwch blewyn, 3–2, yn erbyn Ysgolion Abertawe.
Perfformiadau rhagorol gan bawb, gan frwydro'n ddewr hyd at y chwiban olaf a chynrychioli'r sir gyda balchder.
Da iawn fechgyn – rydym yn falch iawn ohonoch!



Well done to the Ysgol Bro Pedr boys who represented Ceredigion Schools Football Association at Under 13 and Under 14 level over the weekend.
There were some outstanding performances throughout, with Gwyn and Leo scoring for the Under 12 team in some extremely competitive matches.

The Under 13 match was a particularly exciting and closely contested encounter, with the boys narrowly losing 3–2 against Swansea Schools.
Fantastic performances from everyone, battling bravely until the final whistle and representing the county with great pride.
Well done, boys – we are incredibly proud of you all!

CYNRYCHIOLI CEREDIGION
REPRESENTING CEREDIGION



Da iawn i fechgyn Blwyddyn 11 a gynrychiolodd y sir nos Wener mewn gêm heriol. Roedd yn brofiad gwerthfawr ac fe ddangoson nhw ymrwymiad a phenderfyniad drwy gydol y gêm.

Well done to the Year 11 boys who represented the county on Friday evening in a challenging match. It was a valuable experience, and they showed commitment and determination throughout the game.

Llongyfarchiadau i ferched Blwyddyn 10 ac 11 a gynrychiolodd dîm merched EEP Ceredigion wythnos diwethaf. Canlyniadau gwych gyda buddugoliaeth yn erbyn Pen-y-bont a gêm gyfartal yn erbyn Sir Gâr.
Ymdrech arbennig gan bawb.

Congratulations to the Year 10 and 11 girls who represented the EEP Ceredigion girls' team last week. Excellent results, with a victory against Bridgend and a draw against Carmarthenshire. A fantastic effort from everyone involved.



DYSGU AYWR AGORED
OUTDOOR LEARNING







Mae disgyblion y Dysgu Sylfaen wedi bod yn mwynhau cyfres o sesiynau dysgu a chwarae yn yr awyr agored yn ddiweddar. Mae'r profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu creadigrwydd, cydweithio a sgiliau datrys problemau. Hoffem ddiolch yn gynnes i Miss Nina am ei charedigrwydd wrth gyfrannu teiars i'r ysgol, sydd wedi ychwanegu at yr amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau allanol cyffrous sydd ar gael i'r disgyblion.

Our Foundation Learning pupils have been enjoying a range of outdoor learning and play opportunities recently. These experiences provide valuable opportunities to develop creativity, teamwork and problem-solving skills. We would like to extend our sincere thanks to Miss Nina for kindly donating tyres to the school, which have enhanced the exciting range of outdoor activities and experiences available to our pupils.

Blwyddyn 7 - Panto
Year 7

Bu disgyblion Blwyddyn 7 ar daith i Theatr y Lyric, Caerfyrddin ddydd Gwener i fwynhau perfformiad gan Gwmni Mega o'r ddrama Gwion Bach a Ceridwen y Wrach. Cafodd y disgyblion brofiad difyr a gwerthfawr wrth wylio'r perfformiad byw.

Year 7 pupils visited the Lyric Theatre, Carmarthen on Friday to enjoy a performance of Gwion Bach a Ceridwen y Wrach by Mega Company. The pupils had an enjoyable and valuable experience watching the live performance and were a credit to the school throughout the visit.









Codi Arian Dros Achos Da!

Plant Mewn Angen

Plant Mewn Angen


Caredigrwydd
Newid Bywydau
Kindness Changes Lives

Dydd Gwener 13 Tachwedd 2026
Friday 13th November 2026

Gwisgwch byjamas neu wisg smotiog!

Wear pyjamas or a spotty outfit!





£1
Cyfraniad
Donation

Cystadleuaeth Addurno Cacen
Design a Cake Competition

Dewch â'ch creadigaethau lliwgar i'r ysgol!
Bring your colourful cake creations to school!

Byddwch yn greadigol!
Be creative!



Taflu Sbwng at yr Athrawon!
Throw a Sponge at the Teachers!


Cyfle i gael hwyl a chefnogi achos da!
A chance for some fun while supporting a great cause!




Stondin Gacennau
Cake Stall

Cacennau, bisgedi a danteithion blasus!
Cakes, biscuits and tasty treats!

Prynwch mwynhewch!
Buy and enjoy!



Diolch am eich cefnogaeth!
Thank you for your support!



Cydweithio ♥ Caredigrwydd ♥ Parch ♥ Gwahaniaeth ♥ Together ♥ Kindness ♥ Respect ♥ Difference

GOFALWYR IFANC
YOUNG CARERS



COFFI A CHLONC
SGILIAU BYWYD
LIFE SKILLS
COFFEE AND CATCH-UP



Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

10.11.26
2-4 YP/PM

CYFLE AM SGWRS DROS BANED A GWELD GWAITH A CHYNNYDD EICH PLENTYN.
AN OPPORTUNITY TO SEE AND DISCUSS YOUR CHILD'S WORK AND PROGRESS.



ACADEMI SEREN

CEFNOGI EICH DYSGWR SEREN: CANLLAW I SEREN A LLWYBRAU ADDYSG UWCH

SUPPORTING YOUR SEREN LEARNER: A GUIDE TO SEREN & HIGHER EDUCATION PATHWAYS

Gweminar ar gyfer Rhieni a Gofalwyr Dysgwyr Cam 2 Academi Seren
Webinar for Parents & Carers of Stage 2 Academi Seren Learners

CYMRAEG

Byddwn yn trafod:

- Cyfleoedd Academi Seren a sut i ymgysylltu gyda'r rhaglen.
- Cyngor gan riant a chyn-fyfyrwyr Seren.
- Cyflwyniad gan UCAS ar gefnogi dysgwyr i wneud dewisiadau hysbys

6yh, Dydd Mercher 11eg Tachwedd
Teams

ENGLISH

We'll be discussing:

- Academi Seren opportunities and how to get involved.
- Advice from a Seren parent and alumni.
- UCAS guidance on supporting your learner to make informed decisions.

6pm, Wednesday 11th November
Teams

Am wybodaeth bellach, ebostiwch post@serencymru.com.
For further information please email post@serencymru.com.

Peer Support for Young Dementia Carers Programme – A feasibility study

Principal Investigator: Dr Patricia Masterson-Algar (School of Health Sciences, Bangor University)

We have recently developed, in partnership with Dementia UK and Carers Trust a new online Peer Support Programme for Young Dementia Carers.

What do we want to achieve?

We want to find out what young dementia carers and their parents/guardians think about this new programme. We want to explore whether they found it useful or not and why.

Who can join?

- Young people age 8-16 who currently help care for a family member living with dementia (e.g., helping with household chores, companionship and emotional support). We are also inviting their parents/guardians.
- Living in Wales, England or Scotland.
- With internet access

What will happen?

Young dementia carers will try out the programme and tell us what they think. This will involve:

- Joining 8 online sessions (1 hour each), in a small group with other young dementia carers.
- Facilitated by two professionals who have experience of working with families affected by dementia and young carers.
- Saying what they think through diaries or voice recordings, interviews with researchers, and questionnaires.

About the programme:

This programme has been designed by, and for, young dementia carers aged 8 to 16. It aims to give young carers the chance to meet others in similar situations, so they can support each other, understand dementia better, and feel less alone.

If you would like to find out more, you can watch a short video with more details: https://youtu.be/W2FcLTVExr0

If you, or anyone you know, are interested in finding out more, please contact:
Jen Roberts: j.roberts@bangor.ac.uk
Phone number is 01248 388346.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cymorth Cyfoedion i Ofalwyr Dementia ifanc

"Mae fy mhlant angen help i ddeall dementia a'r effaith y mae'n gael ar eu mham"

8-16 oed?



A hoffent gymryd rhan yn ein rhaglen cymorth cyfoedion newydd?

- Cwrdd â phobl ifanc eraill sydd â phrofiadau tebyg
- 2 hwylusydd (ag arbenigedd mewn dementia a phobl ifanc)
- Dweud wrthym beth maent yn ei feddwl o'r rhaglen er mwyn helpu i'w gwella

AM FWY O WYBODAETH AM YR YMCHWIL YMA:

Jen Roberts
j.roberts@bangor.ac.uk

Mewn partneriaeth gyda: DementiaUK, Carers Trust

Peer Support for Young Dementia Carers

"My children need help to understand dementia and the effect that it has on their mum"

8-16 yrs?



Would they like to take part in our new peer support programme?

- Meet other young people with similar experiences
- 2 facilitators (with expertise in dementia & young people)
- Tell us what they think about it to help improve it

FIND OUT MORE ABOUT THIS RESEARCH:

Jen Roberts
j.roberts@bangor.ac.uk

In partnership with: DementiaUK, Carers Trust

Gweithdy Torch Nadolig
Christmas Wreath Workshop

gan / with Meinir Evans, Hathren Brownies

19.11.2026 | **7.30pm** | **Neuadd Ysgol Bro Pedr Hall** | **£40.00 y person / per person**

Mae'r pris yn **cynnwys yr holl ddeunyddiau** i greu eich torch Nadolig hardd eich hun, ynghyd â **danteithion Nadoligaidd a diod!**



The price includes all materials to make your own beautiful Christmas wreath, plus festive **treats and a drink!**

Noson o greadigrwydd a hwyl y Nadolig!

A festive evening of creativity and Christmas fun!

Tocynnau ar gael drwy ap My Child At School (MCAS) neu drwy ffonio 07852264336.

Tickets available via the My Child At School (MCAS) **app or by phoning 07852264336.**

Agored i bawb / Open to alll

DYDDIAD PWYSIG I'R DYDDIADUR
AN IMPORTANT DATE FOR THE DIARY

DYDDIAD EIN FFAIR NADOLIG A'N TAITH CERBYDAU NADOLIGAIDD LLWYDDIANNUS

THE DATE OF OUR SUCCESSFUL CHRISTMAS FAIR AND CHRISTMAS VEHICLE RUN

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

FFAIR DOLIG A THAITH GERBYDAU NADOLIGAIDD

CHRISTMAS FAIR AND VEHICLE RUN



20-12-2026 | Ysgol Bro Pedr | £20.00

(Y cerbyd yn cynnwys 1 tocyn bwyd / per vehicle inc. 1 food ticket)

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

CHILDREN'S VEHICLE Christmas Run

TAITH GERBYDAU NADOLIG I BLANT



Bikes | Scooters | Go Carts | Kids' Tractors

20-12-2026 | 4:00pm

Ysgol Bro Pedr

All children welcome!
— Croeso i bawb! —

SEREN YR WYTHNOS
STAR OF THE WEEK









SEREN YR WYTHNOS
STAR OF THE WEEK









CYMRO/CYMRAES YR WYTHNOS









CYMRO/CYMRAES YR WYTHNOS












NOSWEITHIAU RHIENI / PARENTS EVENINGS

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
10.11.26	Noson Rieni Blwyddyn 13 - Neuadd / Gampfa Year 13 Parents Evening - Hall / Gym	13
10.11.26	Coffi a Chlonc Sgiliau Bywyd a Chanolfan y Bont Coffee and Chat - Life Skills and Canolfan y Bont 2.30-4.30	Sgiliau Bywyd Canolfan y Bont
1.12.26	Noson Rieni Blwyddyn 12 - Neuadd / Gampfa Year 12 Parents Evening - Hall / Gym	12
12.1.27	Noson Dewisiadau Blwyddyn 11 / Year 11 Options Evening	11
2.2.27	Noson Dewisiadau TGAU - Blwyddyn 9 Year 9 - Choices Evening - Year 9	9
2.2.27	Noson Rieni Meithrin - Blwyddyn 2 Meithrin - Year 2 Parents Evening	Meithrin - 2
3.2.27	Noson Rieni Blwyddyn 3-6 Year 3-6 Parents Evening	3-6
16.2.27	Noson Rieni Blwyddyn 10 Year 10 Parents Evening	10
6.4.27	Noson Rieni Blwyddyn 9 Year 9 Parents Evening	9
20.4.27	Noson Rieni Blwyddyn 7 Year 7 Parents Evening	7
4.5.27	Noson Rieni Blwyddyn 8 Year 8 Parents Evening	8
22.6.27	Coffi a Chlonc Sgiliau Bywyd a Chanolfan y Bont Coffee and Chat - Life Skills and Canolfan y Bont 2.30-4.30	Sgiliau Bywyd Coffi a Chlonc



PETHAU PWYSIG / IMPORTANT DATES

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
13.11.26	Diwrnod Plant Mewn Angen Children in Need Day	Pawb / All
16.11.26		
17.11.26	Diwrnod Sanau Od Odd Socks Day	Pawb / All
20.11.26	Diwrnod Coch Gwyn a Gwydd - £1 Wear - Red, White and Green Day	Pawb / All
1.12.26	Cinio Nadolig 10-13 Christmas Dinner 10-13	10-13
2.12.26	Cinio Nadolig Cynradd Primary Christmas Dinner	Meithrin - 6
3.12.26	Cinio Nadolig 7-9 Christmas Dinner 7-9	7-9
2.12.26	Cyngerdd Nadolig Meithrin a Derbyn / Nursery and Reception Christmas Concert	Meithrin / Derbyn
1.2.26	Cyngerdd Nadolig Disgyblion Blwyddyn 1 - 6 Christmas Concert Year 1 - 6	1-6
8-10.12.26	Cynhrychiad Oed Uwchradd - School of Rock School of Rock - Secondary Age Production	7-13
10.12.26	Diwrnod Siwmper Nadolig Christmas Jumper Day	Pawb / All
14.12.26	Taith Sgio Skiing Expedition	
4.2.27	Pontio Blwyddyn 5 Year 5 Bridging Day	5
14.4.27	Taith Breswyl Glanllyn Blwyddyn 6 Year 6 Residential Trip Glanllyn	6
30.4.27	Diwrnod HMS INSET day	Pawb / All
26.2.27	Eisteddfod Ysgol Oed Cynradd Primary Age School Eisteddfod	Meithrin - 6
28-29.6.27	Pontio Blwyddyn 6 Year 6 Bridging Day	6
6-7.7.27	Eisteddfod Ysgol Oed Uwchradd Secondary Age School Eisteddfod	7-13
8.7.26	Pigion Pedr - Neuadd Uwchradd	

01/12/26 (Bl 10-13)

03/12/26 (Bl7-9)

Bwydlen Nadolig

Prif Gwrs

Twrci, Selsig a Bacwn, Stwffin, Taten Rhost,
Taten Hufennog, Saws llugaeron, Grefi, Dewis
o 3 fath o lysiau
£6.00

Dewis 2 fath o lysiau
£5.50

Dewis 1 llysieuyn
£5.00

Twrci, Taten Hufennog, Stwffin, 1 llysieuyn, Grefi
£3.35

Ychwanegwch...

Taten Rhost 45**c**
Selsig a Bacwn 85**c**
Saws llugaeron 30**c**

Opsiwn Llysieuol

Selsig Glamorgan 80**c**

Pwdin

Gateau Siocled £1.20
Cacen Gaws £1.00
Mins Pei 80c
Pwdin Nadolig £1.20

01/12/26 (Yr 10-13)

03/12/26 (Yr 7-9)

Christmas Dinner

Main

Turkey, Pigs in Blanket, Stuffing, Roast Potato,
Mashed Potato, Cranberry Sauce, Gravy,
Choice of 3 Vegetables
£6.00

Choice of 2 Veg
£5.50

Choice of 1 Veg
£5.00

Turkey, Mashed Potato, Stuffing, One Veg, Gravy
£3.35

Extra

Roast Potato 45p
Pigs in Blanket 85p
Cranberry Sauce 30p

Vegetarian

Glamorgan Sausage 80**p**

Desserts

Chocolate Gateau £1.20
Cheesecake £1.00
Homemade Mince Pie 80p
Christmas Pudding £1.20

01/12/26

03/12/26

Bwydlen Nadolig

2 Sausage in a bun £1.87
Sandwich or Roll £1.75 - £1.85
Baguette £2.40 - £2.50
Hot Turkey and Stuffing Baguette £3.10
Hot Turkey and Stuffing Roll £2.90
Hot Turkey Baguette £2.80
Hot Turkey Roll £2.60
Pizza Baguette (Meat) £1.65
Pizza Baguette (No Meat) £1.30

01/12/26

03/12/26

Bwydlen Nadolig

Bargen Bryd

1 Selsig / 1 Selsig Glamorgan
Neu
1 Selsig Mewn Blanced
Gyda
Taten Hufennog, Stwffin, 1 Llysieuyn, Grefi
...
Teisen Frau Seren
£3.52

Set Meal Deal

1 Sausage/ 1 Glamorgan Sausage
or
1 Pig in Blanket
With
Mashed Potatoe, Stuffing, 1 vegetable, Gravy
...
Shortbread
£3.52